# Cymraeg Mewn Ymarfer Proffesiynol 1
## ECAD4020
## 2024-25

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

**Darlith 16 ac 17: 13.2.2025**
- **Asesu Modwl 10 credyd**
- **Portffolio**

Peniarth .cymru
RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

n.evans@pcydds.ac.uk

# Gwybodaeth am asesu
# BA1
# 2024-25

# Gwybodaeth am asesu

## Cymraeg mewn Arfer Proffesiynol: ECAD4020C & ECAD5019C

**Modwl 10 credyd**

Portffolio yn cynnwys:

cynllun gwers
adnoddau
recordiad o'r wers feicro
gwerthusiad o'r wers (BA2 yn unig)

***ffocws ar bedagogeg a strategaethau dysgu ac addysgu**

**Portffolio Fframwaith Cymwyseddau Iaith (gofyniad LlC)**

Portffolio yn cynnwys:
tystiolaeth o'ch sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer siarad, ysgrifennu, gwrando a darllen.

Tystiolaeth o strategaethau dysgu ac addysgu – gwaith y modwl 10 credyd.

# Gwybodaeth am asesu

## ECAD4020C (BA1)

**Elfen asesu 1:** 5 munud
Recordiad o wers feicro

**Elfen asesu 2:** 750 gair
- cynllun gwers
- adnoddau'r wers

***Cofiwch fod ffocws ar bedagogeg a strategaethau dysgu ac addysgu, nid eich cywirdeb ieithyddol. Gellir dod o hyd i'r taflenni asesu ar Moodle.***

# Rhan 1: Modwl 10 credyd

# Gwybodaeth am asesu

https://uwtsd.hosted.panopto.com/Panopto/Pages/Viewer.aspx?id=5895755c-2fba-4bb7-8913-b2120104b108)

Rhan 1: Modwl 10 credyd tan 6 munud

# Sut mae cyflwyno'r aseiniad?

**Cam 1:**

ewch i

Moodle

# Sut mae cyflwyno'r aseiniad?

**Cam 2:**
agorwch y
modwl



# Sut mae cyflwyno'r aseiniad?

**Cam 3:**
agorwch
"Turnitin"



# Sut mae cyflwyno'r aseiniad?

**Cam 4:**
cliciwch
fan hyn

## Turnitin

Turnitin: ECAD4020-C (Draft)

**Cyflwyniad cychwynnol yw'r asesiad yma er mwyn i'r myfyrwyr darllen yr adroddiad am lên-ladrad cyn y cyflwyniad terfynol.**

---

This is an initial submission for students to check the Turnitin report for plagiarism prior to a final submission.

**Cyflwynwyd yr aseiniad erbyn** / The assignment is due on **12/05/2025 at 23:59.**

Turnitin: ECAD4020-C (Terfynol)

**Cyflwyniad terfynol yw'r asesiad yma er mwyn asesu'r gwaith.**

Cyflwynwyd yr aseiniad erbyn **12/05/2025 at 23:59.**

Turnitin: ECAD4020-C (Final)

This is the final submission in order to enter for assessment.

The assignment is due on **12/05/2025 at 23:59**

# Sut mae cyflwyno'r aseiniad?

**Cam 5:**
Uwchlwythwch y recordiad o'r wers




Uwchlwythwch y recordiad **fideo** o'r wers (5 munud) ar ffurf dolen o'r One Drive.

# Sut mae gwneud dolen ar gyfer y ffilm?

1. Ewch i OneDrive – gallwch wneud hyn drwy glicio ar y ddolen ar y Hwb.



2. Llwythwch eich ffeil i OneDrive.




3. Ewch i'r eicon Rhannu (Share) wrth ymyl eich ffeil.



4. Cliciwch yr eicon wrth ymyl 'Copy link' i newid y gosodiadau.



5. Dewiswch 'Pobl yn Y Drindod Dewi Sant' (People in UWTSD) a chliciwch ar ‘Apply’.



6. Copïwch y ddolen (‘Copy link’).




7. Gludwch (‘paste’) y ddolen i ddogfen Word. Uwchlwythwch y ddogfen Word drwy Turnitin yn Moodle.

# Sut mae cyflwyno'r aseiniad?

Ydych chi wedi deall ble mae'r recordiad fideo yn mynd?



# Sut mae cyflwyno'r aseiniad?

**Cam 6:**

Uwch lwythwch y cynllun gwers ac adnoddau'r wers fan hyn.

Uwch lwythwch gynllun y wers a'r adnoddau ar ffurf **un ddogfen**, e.e. cyflwyniad Pwerbwynt ar ffurf PDF.



# Cynllun Gwers

<table>
<tr><td>Blwyddyn:</td><td>Maes Dysgu a Phrofiad:</td><td>Nod y wers:</td></tr>
<tr><td>Gwybodaeth flaenorol:</td><td rowspan="2">Geirfa allweddol:<br><br>Ffocws iaith:</td><td rowspan="2">Gweithgareddau:</td></tr>
<tr><td>Adnoddau:</td></tr>
</table>

# Cynllun Gwers

| | | |
|---|---|---|
| **Blwyddyn:** | **Maes Dysgu a Phrofiad:** | **Nod y wers:** |
| **Gwybodaeth flaenorol:** | **Geirfa allweddol:**<br><br>**Ffocws iaith:** | **Gweithgareddau:** |
| **Adnoddau:** | | |

Cofiwch gynnwys yr adnoddau gafodd eu defnyddio yn ystod y wers.

# Oes cwestiynau am y modwl 10 credyd?



# Rhan 2: Portffolio

# Gwybodaeth am asesu

https://uwtsd.hosted.panopto.com/Panopto/Pages/Viewer.aspx?id=5895755c-2fba-4bb7-8913-b2120104b108)

Rhan 2: Portffolio o
5 munud ymlaen

# Sut mae uwchlwytho'r portffolio ar PebblePad?

https://uwtsd.hosted.panopto.com/Panopto/Pages/Viewer.aspx?id=a2a8978f-9561-4069-aefc-b26d0112227e

# Pa dasgau sy'n addas ar gyfer y portffolio?

**Canllaw ar Ofynion Y Fframwaith 2024-25**

- Dyma enghreifftiau o'r mathau o bethau gallwch chi eu cynnwys fel tystiolaeth i enghreifftio eich lefel ar bob sgil. Does dim disgwyl i chi gynnwys pob un o'r rhain ond gwnewch yn siwr bod gennych ddigon o dystiolaeth.

| | Cyn-fynediad | Mynediad<br>**A1** | Sylfaen<br>**A2** | Canolradd<br>**B1** | Uwch<br>**B2** | Hyfedredd<br>**C1** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llafar | Recordiad yn dweud cyfarchion syml ar ddechrau gwers e.e. Bore da.<br><br>Recordiad yn dweud rhai geiriau cyfarwydd. | Recordio eu hunain yn darllen llyfr/ testun syml i'r plant ac yn holi cwestiynau.<br><br>Recordio meicro-wers fer.<br><br>Trafodaeth pâr yn holi ac ateb cwestiynau syml, neu'n cael sgwrs fer. | Recordio eu hunain yn darllen llyfr/ testun i'r plant gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau i holi cwestiynau.<br><br>Recordio meicro-wers.<br><br>Trafodaeth pâr yn holi ac ateb cwestiynau, neu'n cael sgwrs. | Recordio eu hunain yn darllen llyfr/ testun i'r plant ac yn cynnal trafodaeth syml gyda'r plant.<br><br>Recordio meicro-wers.<br><br>Trafodaeth grŵp am bwnc addas. | Trafodaeth grwp (e.e. am erthygl neu drafodaeth am bwnc llosg ym myd addysg) - gwrando ac ymateb i'w gilydd.<br><br>Recordiad o wers sy'n dangos cyfraniad llafar estynedig gan yr unigolyn.<br><br>Ffug gyfweliad<br><br>Recordiad o gyflwyniad llafar y TSI | Trafodaeth grwp (e.e. am erthygl neu drafodaeth am bwnc llosg ym myd addysg) - gwrando ac ymateb i'w gilydd<br><br>Recordiad o wers sy'n dangos cyfraniad llafar estynedig gan yr unigolyn.<br><br>Ffug gyfweliad<br><br>Recordiad o gyflwyniad llafar y TSI. |
| Darllen | Recordiad yn darllen darn neu lyfr syml iawn – brawddeg neu ddwy. | Recordiad yn darllen sgwrs ar ôl sawl gwrandawiad.<br><br>Recordiad yn darllen llyfr i'r plant neu'n darllen cyfarwyddiadau i'r plant. | Recordiad yn darllen sgwrs ar ol sawl gwrandawiad.<br><br>Recordiad yn darllen llyfr i'r plant a thrafod y testun.<br><br>Tasg ddarllen a deall | Recordiad yn darllen sgwrs ar ol sawl gwrandawiad.<br><br>Recordiad yn darllen llyfr i'r plant ac yn trafod y testun neu'n mynegi barn arno. | Aseiniad academaidd â ffynonellau (mwy nag un yn unig) Cymraeg.<br><br>Recordiad yn darllen rhan o nofel Gymraeg ac yn trafod y testun yn drylwyr mewn | Aseiniad academaidd ag **<u>amrywiaeth</u>** o ffynonellau Cymraeg<br><br>Recordiad yn darllen rhan o nofel Gymraeg ac yn dadansoddi'r testun yn estynedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Tasg ddarllen a deall.<br>Ymarferion cyfieithu. | Cyn-bapurau arholiadau darllen Defnyddio'r Gymraeg Sylfaen ar wefan CBAC*<br><br>Ymarferion cyfieithu. | Tasg ddarllen a deall.<br><br>Cyn-bapurau arholiadau darllen Defnyddio'r Gymraeg Canolradd ar wefan CBAC* | grŵp e.e Clwb Darllen, neu'n trafod y cymeriad/au | mewn grŵp e.e Clwb Darllen. |
| Ysgrifennu | Ateb cwestiynau syml – un gair neu un frawddeg.<br><br>Ambell frawddeg syml wedi eu hysgrifennu ar adnoddau.<br><br>Adnoddau geirfa syml e.e cardiau fflach. | Adnoddau addysgol – Mat iaith/poster.<br><br>Creu rhestr o gwestiynau i ofyn i'r plant mewn cynllun gwers.<br><br>Ysgrifennu sgript syml.<br><br>Sgrinluniau o'r cwestiynau yn y Forms lle mae gofyn i chi ysgrifennu /trefnu brawddegau syml yn gywir. | Creu adnoddau – Mat iaith/poster.<br><br>Creu rhestr o gwestiynau i'w gofyn i'r plant neu'r patrymau byddwch chi'n eu defnyddio mewn cynllun gwers.<br><br>Ysgrifennu hunanbortread.<br><br>Sgrinluniau o'r cwestiynau yn y Forms lle mae gofyn I chi ysgrifennu /trefnu brawddegau syml yn gywir. | Creu adnoddau – Mat iaith /poster/ Quizlet<br><br>Creu rhestr o gwestiynau i'w gofyn i'r plant neu'r patrymau byddwch chi'n eu defnyddio mewn cynllun gwers.<br><br>Ysgrifennu cynllun gwers drwy gyfrwng y Gymraeg. | Aseiniad academaidd<br><br>Datganiad personol - cais am swydd<br><br>Llythyr ffurfiol e.e. at rieni.<br><br>Adroddiadau ar waith disgyblion. | Aseiniad academaidd<br><br>Datganiad personol - cais am swydd<br><br>Llythyr ffurfiol e.e. at rieni.<br><br>Adroddiadau ar waith disgyblion. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwrando | Recordiad o atebion i gwestiynau syml e.e Pwy wyt ti? | Cadw cofnod o ganlyniadau cwisiau/Microsoft Forms lle mae ymarferion gwrando Recordiad ohonoch chi'n gwneud yr | Cadw cofnod o ganlyniadau cwisiau/Microsoft Forms lle mae ymarferion gwrando Recordiad ohonoch chi'n gwneud yr | Cadw cofnod o ganlyniadau cwisiau/Microsoft Forms lle mae ymarferion gwrando | Trafodaeth grŵp (e.e. am erthygl neu drafodaeth am bwnc llosg ym myd addysg) - gwrando ac ymateb i'w gilydd | Trafodaeth grwp (e.e. am erthygl neu drafodaeth am bwnc llosg ym myd addysg) - gwrando ac ymateb i'w gilydd |
| | | ymarferion gwrando e.e. gwrando ar sgwrs yna ateb cwestiynau /llenwi bylchau.<br><br>Recordiad ohonoch chi'n ymateb i gwestiynau syml gan ddysgwyr yn y dosbarth e.e. meicro wers lle rydych chi'n ymateb i'r plant. | ymarferion gwrando e.e. gwrando ar sgwrs yna ateb cwestiynau /llenwi bylchau.<br><br>Recordiad ohonoch chi'n ymateb i gwestiynau syml gan ddysgwyr yn y dosbarth e.e. meicro wers lle rydych chi'n ymateb i'r plant. | Gwrando ar sgwrs yn y Gymraeg a chyfieithu'r cynnwys<br><br>Recordio sgwrs "naturiol"- holi ac ateb ei gilydd. | Recordiad o wers - dangos ymateb i'r disgyblion (ar y lefel hon, nid yw'n ddigon o dystiolaeth ar ei ben ei hun)<br><br>Cyflwyiad TSI - y cwestiynau ar y diwedd | Recordiad o wers - dangos ymateb i'r disgyblion (ar y lefel hon, nid yw'n ddigon o dystiolaeth ar ei ben ei hun)<br><br>Cyflwyniad TSI – y cwestiynau ar y diwedd |
| | | | | | | |

Gwnewch siwr bod gennych ddigon o dystiolaeth ar gyfer pob un o'r sgiliau (uchafswm o 5 darn ar gyfer pob un o'r sgiliau unigol).

# Tasgau posibl i'r portffolio ...

https://www.porth.ac.uk/

1. Dewiswch "Addysg" wrth chwilio am yr adnodd.
2. Yr adnodd ydy: Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau Iaith Athrawon
3. Chwiliwch am dasgau addas.



# Tasg lafar: gwaith grŵp

- Beth sy'n gwneud ysgol hapus, yn eich barn chi?
- Beth sy'n gwneud athro da?
- Beth sy'n gwneud gwers iaith dda?

Gallwch rannu profiadau gydag aelodau'r grŵp ond cofiwch i beidio ag enwi ysgolion nag athrawon penodol.

# Yr elfen Addysgu a Dysgu

Cynnwys y Modiwl 10 credyd:

1. recordiad **ffilm** 5 munud o wers sydd â ffocws iaith clir;
2. cynllun o'r wers gafodd ei recordio / ffilmio;
3. adnoddau o'r wers gafodd ei haddysgu a'i recordio / ffilmio;
4. unrhyw adnoddau ychwanegol sy'n addas (os rydych yn dymuno eu hychwanegu).

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Institute of Education

RHAGORiaith

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

**Portffolio Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon**

Rhif Myfyriwr: ______________________________

Rhaglen *(ticiwch y blwch perthnasol)*:

| TAR Cynradd | | TAR Uwchradd | | BA Addysg | |
|---|---|---|---|---|---|

| | Math o dystiolaeth | Rhesymau dros gyflwyno'r dystiolaeth |
|---|---|---|
| SIARAD | | |
| GWRANDO | | |
| DARLLEN | | |
| YSGRIFENNU | | |
| Addysgu a Dysgu | | |

**Cyngor doeth wrth baratoi'r portffolio**

- Tystiolaeth BERTHNASOL o'ch sgiliau iaith bersonol – rhaid i'r dystiolaeth fod yn berthnasol i'r disgrifiadau lefel.
- DIGON o dystiolaeth o'r 4 sgil a'ch gallu o ran y dulliau addysgu a dysgu, ond peidiwch gorlwytho. Ni ddylech gyflwyno mwy na 5 adnodd ar gyfer unrhyw sgil. Meddyliwch PAM rydych chi'n cyflwyno pob darn.
- Gwrando – os ydych yn cyflwyno tasgau gwrando fel tystiolaeth, rhaid i chi gynnwys y ffeil sain yn ogystal â'ch atebion i'r cwestiynau, neu fydd y dystiolaeth ddim yn profi eich gallu gwrando chi.
- Ysgrifennu – cynnwys aseiniad sy'n dangos eich gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg a'ch gallu i gyrraedd lefelau uchaf y sgil darllen.
- Addysgu a Dysgu: Dylech chi gyflwyno eich portffolio o adnoddau addysgu ar gyfer y modwl 10 credyd yn y fan hon gan gynnwys y recordiad fideo. Mae croeso i chi gyflwyno unrhyw dystiolaeth addysgu a dysgu ychwanegol y tu hwnt i aseiniad y modwl yma hefyd os yw'n berthnasol.
- Os ydych chi'n cyflwyno darn o dystiolaeth sy'n berthnasol ar gyfer sawl sgil, nodwch hynny yn y tabl uchod. Dim ond unwaith fydd angen i chi lwytho'r ffeil i'r PDP.
- Dangoswch eich hun ar eich gorau yn y portffolio – dewiswch eich tystiolaeth yn ddoeth!

# Oes cwestiynau am y Portffolio?



# Cynllunio gwers

# Mae modd cynllunio ffocws iaith i unrhyw wers. Beth am ystyried ….?

- Pa batrwm iaith sy'n cefnogi nod y wers (mewn unrhyw Faes Dysgu a Phrofiad), e.e. geirfa allweddol; patrwm cwestiwn ac ateb; dechreuadau brawddegau; testun estynedig, a.y.y.b.?
- Oes ffocws iaith i bob tasg?
- Beth fydd adeiladwaith y wers (h.y. i gyrraedd y nod terfynol)?
- Sut byddwch chi'n gwahaniaethu o fewn y dosbarth?

# Pa fethodolegau caffael a datblygu iaith fydd fwyaf addas i'r wers?

- Pa weithgareddau cynhesu fyddwch chi'n eu cynllunio?
- Oes tasgau gwrando / llafar / darllen / ysgrifennu? Pa rai fyddwch chi'n eu cynllunio?
- Pa eirfa / batrymau iaith fyddwch chi'n eu drilio? Sut?
- Pa gemau iaith fedrwch chi eu chwarae?
- Oes angen mat iaith i'w cefnogi?

Mae

Aled Afal
Alwen Malwen
Nionyn
Luigi Lemwn
Oriol Oren
Matilda Tomato
Ana Banana

yn

goch.
wyrdd.
hapus.
drist.
lliwgar.
felyn.
oren.
goch.



# Dyddiadur Wendi Wlanog

Yn gyntaf
Yn y bore
Yna
Wedyn
Cyn
Ar ôl
Yn y prynhawn
Ar ddiwedd y dydd

codais
penderfynais
agorais
edrychais
bwytais
cerddais
rhedais
gwelais
siaradais
brasgamais i

gwnes i
es i

haul
Lili'r Wyddfa
bag
mynydd
siocled
pop
chwyddwydr
chwistrell
aerosôl
blodau
gwenyn
cerddwyr
dringwyr
y gornchwiglen
mynd am dro

braf
heulog
cynnes
poeth
oer
hyfryd
prydferth
prin
anodd
serth
caregog
caled
blasus
hapus
blinedig

# Cynllun Gwers

**Blwyddyn:**
Cynradd Dysgu Sylfaen: cyfrwng Cymraeg

**Maes Dysgu a Phrofiad:**
Mathemateg a Rhifedd

**Nod y wers:** Dysgu am rifau sgwâr 100 gan ddefnyddio arddodiaid a defnyddio'r sgwâr 100 i adio a thynnu.

**Gwybodaeth flaenorol:**

- Gallu cyfrif o 1-100 yn Gymraeg.
- Deall nodweddion sgwâr cant.
- Adnabod patrwm cwestiwn.
- Deall sut mae adio a thynnu.

**Adnoddau:**

- Sgwâr cant i bob dysgwr.
- Gwrthrychau yn y dosbarth neu deganau.
- Disiau poced sy'n cynnwys yr arddodiaid sydd ar y mat iaith.
- Mat iaith.

**Ffocws iaith:**
Adolygu'r arddodiaid wrth ddysgu rhifau sgwâr cant

- uwchben
- ar ôl
- cyn
- o flaen
- o dan
- tu ôl
- Patrwm cwestiwn: Pa rif sydd uwchben 8?
- Treiglad meddal ar ôl 'Pa' wrth ofyn cwestiwn e.e. Pa <u>r</u>if sydd cyn rhif 20?
- Cwestiynau gwahaniaethol ar gyfer grwpiau eraill:
- Faint ydy __ adio __?
- Faint ydy __ tynnu __?

**Gweithgareddau addysgu a dysgu :**

- Drilio'r arddodiaid drwy ganu neu symud.
- Defnyddio gwrthrychau gwahanol yn y dosbarth e.e. 'cloc' a gofyn i'r dysgwyr e.e. Ble mae'r cloc? Mae'r cloc uwchben y silff lyfrau. Hefyd, mae modd defnyddio teganau a'u cuddio o gwmpas y dosbarth cyn y wers a gofyn iddynt ble ydynt er mwyn ymarfer yr arddodiaid.
- Defnyddio'r mat iaith a'r dis poced sy'n cynnwys yr arddodiaid i ymarfer y cwestiwn ac ateb e.e. Pa rif sydd ar ôl 25? Mae rhif 30 ar ôl 25.
- Ymarfer cwestiynau mathemategol fel dosbarth yn gyntaf e.e. Faint ydy 19 adio 2? Defnyddio'r sgŵar cant ar y bwrdd gwyn er mwyn dod o hyd i'r ateb cyn cwblhau'r tasgau mewn grwpiau.

# Sgwâr cant

Cwestiwn: Pa <u>r</u>if sydd ________ 25?
Pa rif sydd **cyn** 25?
Ateb: Mae rhif 20 **cyn** 25.



| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| 2 | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 | 12 | 14 | 16 | 18 | 20 |
| 3 | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 | 18 | 21 | 24 | 27 | 30 |
| 4 | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 | 24 | 28 | 32 | 36 | 40 |
| 5 | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 | 30 | 35 | 40 | 45 | 50 |
| 6 | 6 | 12 | 18 | 24 | 30 | 36 | 42 | 48 | 54 | 60 |
| 7 | 7 | 14 | 21 | 28 | 35 | 42 | 49 | 56 | 63 | 70 |
| 8 | 8 | 16 | 24 | 32 | 40 | [illegible] | 56 | 64 | 72 | 80 |
| 9 | 9 | 18 | 27 | 36 | 45 | 54 | 63 | 72 | 81 | 90 |
| 10 | 10 | 20 | 30 | 40 | 50 | 60 | 70 | 80 | 90 | 100 |



Cwestiynau mathemategol:

➕ Faint ydy __ adio __?

➖ Faint ydy __ tynnu __?

# Cynllun Gwers

<table>
<tr><td>Blwyddyn:</td><td>Maes Dysgu a Phrofiad:</td><td>Nod y wers:</td></tr>
<tr><td>Gwybodaeth flaenorol:</td><td rowspan="2">Geirfa allweddol:<br><br>Ffocws iaith:</td><td rowspan="2">Gweithgareddau:</td></tr>
<tr><td>Adnoddau:</td></tr>
</table>

# Pob lwc i chi gyd!

